1/03/2017 - Cyfarfod Blynyddol – Neuadd y Dref, Aberteifi

Ar 1 Mawrth 2017 i helpu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd ein hail ddigwyddiad 50+ a Byw'n Dda yn Neuadd y Dref, Aberteifi. Roedd yn wych cwrdd â'r rhai a daeth draw, ac estynnwyd croeso cynnes i bawb.

Roedd thema eleni yn ymwneud â llesiant ariannol yn ogystal â diogelwch ar-lein, ymwybyddiaeth o sgamiau a diogelwch yn y cartref ymysg pethau eraill. Roedd yn bleser gennym groesawu siaradwyr o amrywiaeth o sefydliadau a busnesau, gan gynnwys Banc Barclays, Undeb Credyd Gorllewin Cymru, Safonau Masnach, Gofal a Thrwsio Ceredigion, Cyngor ar Bopeth, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion ac Age Cymru. Roedd y cyflwyniadau yn ddiddorol iawn ac roedd yn hynod werthfawr i glywed am yr holl gymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn y sir.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r bobl hynny a fu'n bresennol gyda stondinau gwybodaeth, gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Tai Ceredigion, Tai Wales and West Housing, Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, Shine, National Energy Action, Strategaeth Dai Cyngor Sir Ceredigion, y Groes Goch Brydeinig, Age Cymru, Gwasanaethau Hamdden Cyngor Sir Ceredigion a Chymdeithas Alzheimer. Rhoddwyd llawer o wybodaeth werthfawr.

Gan adeiladu ar hyn a digwyddiad y llynedd yn Aberaeron, ac ar ôl gwrando ar eich awgrymiadau, bydd y digwyddiadau blynyddol hyn yn cael eu cynnal mewn rhannau gwahanol o'r sir mewn ymgais i helpu i'w gwneud yn fwy hygyrch i drigolion o bob rhan o Geredigion. Gyda hyn mewn cof, cynhelir digwyddiad y flwyddyn nesaf ar 8 Mawrth 2018 yn y Morlan, Aberystwyth. Os hoffech chi ddod, cysylltwch â ni yn: Ceredigion50@ceredigion.gov.uk . Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno, a bydd croeso cynnes yn eich aros.